

Ein dull o roi sicrwydd ac adfer Awst 2021

Rydym wedi parhau i roi sicrwydd ynghylch diogelwch a llesiant pobl sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yn ystod pandemig COVID-19. Bu llesiant pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant, gan gynnwys ein staff ein hunain, hefyd yn un o'n prif flaenoriaethau. Ledled Cymru, rydym wedi dysgu llawer o'n profiad dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae hyn yn llywio ein dull gweithredu ar gyfer y misoedd nesaf.

Bydd unrhyw gamau a gymerwn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i helpu i leihau lledaeniad COVID-19.

Mae ein gwaith wedi'i ategu gan gyfres o egwyddorion, ac rydym wedi addasu'r ffordd rydym yn gweithio yn unol â'r rhain.

- **Rhoi pobl yn gyntaf:** mae llais a llesiant pobl wrth wraidd ein gwaith, a ategir gan ddull seiliedig ar hawliau. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant ac yn gweithio ynddynt, a'n staff.
- **Dull seiliedig ar dystiolaeth:** caiff ein gwaith ei lywio gan ddata a gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gan:
 - y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau
 - y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau
 - y bobl sy'n comisiynu'r gwasanaethau
 - y bobl sy'n gweithio mewn rhwydweithiau gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol ehangach
 - ein canfyddiadau o arolygiadau
- **Dull ymatebol a seiliedig ar risg:** byddwn yn gweithio mewn ffordd amserol a chymesur wedi'i chynllunio ac yn seiliedig ar risg. Byddwn yn adolygu ac yn arolygu gwasanaethau rheoleiddiedig ac awdurdodau lleol; yn ymateb i bryderon ac yn cymryd camau i leihau'r risgiau i ddiogelwch a llesiant pobl; ac yn hybu gwelliant.
- **Cydweithio:** byddwn yn parhau i wrando, rhannu gwybodaeth, a chydweithio ym mhob rhan o'r sectorau gofal plant a gofal cymdeithasol, arolygiaethau eraill a Llywodraeth Cymru.
- **Cefnogi gwelliannau ac arloesi:** byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth a'n pwerau i gefnogi gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant i wella ac i annog ffyrdd newydd o weithio.
- **Myfyrio a dysgu:** byddwn yn cymryd amser i fyfyrion ac i ddysgu o bob agwedd ar ein gwaith, ac i addasu ein dull gweithredu lle bo angen.

Rydym hefyd yn parhau i weithio yn unol â'n blaenoriaethau strategol a nodir yn ein [Cynllun Strategol 2020-2025](#), sy'n pennu ein cyfeiriad a'n ffocws sefydliadol dros y pedair blynedd nesaf. Ein blaenoriaethau strategol yw:

- bod yn llais dibynadwy i ddylanwadu ar welliannau a'u llywio

- darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson
- bod yn fedrus ac yn ymatebol

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar lesiant pobl ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant. Rydym yn blaenoriaethu'r gwasanaethau a arolygir gennym, yn ymateb i bryderon ac yn gofyn am adborth o amrywiaeth eang o ffynonellau am ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir i bobl. Rydym yn awyddus i ddysgu am arferion sy'n cynnig patrwm i eraill yn ogystal â meysydd i'w gwella. Rydym yn parhau i dreialu ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys gwneud defnydd effeithiol o'r dechnoleg sydd ar gael i ni, a dysgu o hyn i lywio'r ffordd y byddwn yn gweithredu yn y dyfodol.

Rhoi ein hegwyddorion ar waith

Rydym yn cydnabod bod pwysau parhaus ar wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yn sgil COVID-19, ac nid ydym am ychwanegu at hyn yn ddiangen. Serch hynny, mae'n hanfodol rhoi sicrwydd ynghylch diogelwch a llesiant pobl.

Mae'n bwysig ein bod yn clywed am brofiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol neu ofal plant, a gan staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau hyn. Rydym yn annog pobl i roi adborth i ni drwy gysylltu â'n tîm Cyswllt neu drwy gwblhau ein [harolygon ar-lein](#) newydd.

Rydym yn arfer dull o weithio sy'n seiliedig ar wybodaeth a risg. Rydym yn gweithio'n agos gyda chomisiynwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd ac arweinwyr gofal plant er mwyn rhannu gwybodaeth am wasanaethau i lywio ein penderfyniadau.

Cofrestru

Rydym yn parhau i flaenoriaethu ceisiadau newydd ac amrywiadau i fanylion cofrestru er mwyn helpu i greu capasiti ychwanegol ym maes gofal cymdeithasol oedolion a phlant a darpariaeth gofal plant.

Rydym wedi addasu ein prosesau cofrestru er mwyn sicrhau y gallwn barhau â'n gwaith mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Rydym wedi ailddechrau cynnal ymweliadau safle ffisegol, a byddwn yn adolygu ein prosesau'n barhaus ac yn eu haddasu fel y bo'n briodol.

Arolygu ac Adolygu

Rydym yn arolygu ac yn adolygu gwasanaethau ac awdurdodau lleol drwy wneud y canlynol:

- ystyried adborth, gwybodaeth, hysbysiadau a phryderon
- gofyn am adborth gan:
 - y bobl sy'n derbyn y gwasanaethau
 - comisiynwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd
 - gweithwyr proffesiynol sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r gwasanaeth yn ddiweddar
- gofyn am wybodaeth gan ddarparwyr
- cynnal arolygiadau ffisegol o wasanaethau rheoleiddiedig

- cynnal gweithgarwch adolygu perfformiad gyda gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i flaenoriaethu ein gwaith. Ategir hyn gan asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg mewn perthynas â COVID-19 i sicrhau diogelwch y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, y staff a'r arolygwyr.

Wrth gynnal ein gweithgarwch arolygu, byddwn yn treulio digon amser yn y gwasanaeth i ddod i gasgliad cyffredinol am ddiogelwch ac ansawdd y gofal a roddir.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos ag arolygiaethau eraill er mwyn ystyried yr opsiynau ar gyfer gwaith ar y cyd ac er mwyn lleihau achosion o ddyblygu.

Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau gofal plant a chwarae a gafodd eu cau yn ystod y pandemig wedi ailagor erbyn hyn. Maent yn darparu gwasanaeth hanfodol i lawer o blant a'u teuluoedd unwaith eto. O ganlyniad, mae'n bwysig ein bod yn cynnal arolygiadau ar y safle sy'n archwilio pob un o'n pedair thema arolygu.

Bydd y broses o ddyfarnu graddau yn parhau wedi'i gohirio am y tro, er mwyn rhoi mwy o amser i'r sector wella. Rydym yn bwriadu ailddechrau dyfarnu graddau ym mis Tachwedd 2021.

Gwasanaethau Oedolion a Phlant

Rydym yn parhau i arolygu gwasanaethau, gan sicrhau bod pob arolygiad yn ystyried Prif Lwybrau Ymholi penodol i'n galluogi i arolygu pob gwasanaeth dros gyfnod o 18 mis (dechreuwyd ym mis Ebrill 2021).

Mae gennym ddull gweithredu hyblyg a byddwn yn ychwanegu rhagor o Brif Lwybrau Ymholi yn dibynnu ar ddadansoddiad o'r wybodaeth sydd gennym am wasanaeth ac mewn ymateb i'r hyn a welwn yn ystod yr arolygiad.

Gorfodi

Rydym yn parhau i weithio yn unol â'n canllawiau ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi, gan gymryd camau gorfodi pan fydd angen.

Adolygu perfformiad awdurdodau lleol

Byddwn yn mynd ar drywydd ein gwiriadau sicrwydd gydag awdurdodau lleol, a byddwn yn cyhoeddi adroddiad trosolwg cenedlaethol ar ein canfyddiadau yn yr hydref. Byddwn yn cynnal arolygiadau seiliedig ar risg o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol os bydd gennym bryderon ynghylch diogelwch a llesiant pobl.

Gweithgarwch arall

Rydym yn parhau i gydgyssylltu ein gwaith cyfathrebu ag amrywiaeth o sefydliadau gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth a chanllawiau clir i ddarparwyr. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth ar ran Llywodraeth Cymru.

Rydym yn rhannu data a gwybodaeth â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn llywio gwaith cynllunio ac ymateb mewn perthynas â COVID-19. Rydym hefyd yn rhannu materion a godir â ni gan ddarparwyr er mwyn sicrhau y cânt eu cefnogi i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n hybu canlyniadau cadarnhaol i bobl.

Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn adolygu ein ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu a gwella yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd yn ein [cynllun strategol](#), a byddwn yn ymgysylltu â'n staff a rhanddeiliaid allweddol yn hyn o beth.

Fframwaith Adfer y Sector Gofal Cymdeithasol

Rydym wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu [Fframwaith Adfer y Sector Gofal Cymdeithasol](#) Llywodraeth Cymru, ac wedi nodi'n fanylach ein cyfraniad penodol yn unol â'n hegwyddorion arweiniol isod.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y sector gofal plant o ran cefnogi adferiad y sector gofal cymdeithasol. Mae'r sector hwn yn darparu gofal a chymorth i blant bach o deuluoedd sy'n agored i niwed yn ogystal â chefnogi gweithlu'r sector gofal cymdeithasol.

Rhoi pobl yn gyntaf

Drwy gydol y pandemig rydym wedi hyrwyddo hawliau pobl, a fydd yn parhau. Er enghraifft, cefnogi gwaith ar ganllawiau ar gyfer ymweliadau â chartrefi gofal, a'u rhoi ar waith.

Byddwn yn ceisio adborth gan bobl am eu profiadau a'u canlyniadau, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, eu teuluoedd a staff sy'n gweithio ynddynt.

Byddwn yn mynd ati i geisio adborth gan ddefnyddio ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol ac yn parhau i weithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) er mwyn annog staff i rannu arferion cadarnhaol a chodi pryderon. Byddwn yn defnyddio'r adborth hwn i lywio ein gwaith o gynllunio arolygiadau, ac yn dwyn ynghyd themâu ac yn eu rhannu i lywio ein gwaith ehangach o gynllunio camau adfer.

Dull seiliedig ar dystiolaeth

Byddwn yn parhau i ddwyn ynghyd, dadansoddi a rhannu ein data a'n gwybodaeth. Bydd hyn yn llywio ein gweithgarwch arolygu, a hefyd yn helpu i lywio dulliau ehangach a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a'n partneriaid.

Drwy ddadansoddi data a gwybodaeth, byddwn yn gallu deall tueddiadau a themâu, er enghraifft hyfywedd ariannol, er mwyn helpu i lunio camau a chymorth wedi'u targedu gan AGC a phartneriaid gofal cymdeithasol.

Dull ymatebol a seiliedig ar risg

Rydym yn blaenoriaethu gweithgarwch arolygu ar sail dadansoddiad o risgiau. Drwy hyn, gwneir yn siŵr ein bod yn sicrhau gwelliannau yn ystod y cyfnod adfer lle mae angen hynny fwyaf.

Cydweithio

Tynnodd ein dull o ymateb i'r pandemig sylw at bwysigrwydd cydberthnasau cadarnhaol ac ymddiriedaeth, a byddwn yn parhau i arfer y dull hwn. Drwy ein cyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru, comisiynwyr a grwpiau o gynrychiolwyr, byddwn yn rhannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda yn ogystal â rhannu pryderon. Drwy gydgyssylltu ein gweithgarwch, bydd llai o ddyblygu a bydd y baich ar ddarparwyr gwasanaethau o ran cefnogi adferiad yn llai.

Byddwn yn cydweithio ag awdurdodau lleol i ddatblygu ein blaenraglen o weithgarwch adolygu perfformiad.

Byddwn yn cydweithio ag arolygiaethau eraill i ddatblygu gweithgarwch arolygu sy'n arfer dull systemau, gan gydnabod bod angen i bob rhan o'r system weithio'n dda gyda'i gilydd er mwyn sicrhau adferiad. Byddwn yn adeiladu ar yr hyn rydym yn ei ddysgu o arolygiadau ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant.

Cefnogi gwelliannau ac arloesi

Byddwn yn parhau i fynd ati i gyfathrebu ac i rannu gwersi a ddysgwyd gan gynnwys cynnal digwyddiadau wedi'u targedu i ddarparwyr.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu rhaglen cefnogi gwelliannau sy'n canolbwyntio ar feithrin diwylliannau cadarnhaol mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn hybu llesiant pobl.

Byddwn hefyd yn cefnogi adferiad drwy rannu arferion cadarnhaol, gan gynnwys adroddiadau thematig sy'n deillio o'r gwiriadau sicrwydd a gynhelir gennym ag awdurdodau lleol ac o'n harolygiadau o wasanaethau rheoleiddiedig.

Myfyrio a dysgu

Rydym wedi addasu i ffyrdd newydd a hyblyg o weithio ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol, a byddwn yn parhau i brofi ffyrdd newydd o weithio yn ystod y cyfnod adfer. Byddwn yn ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gallwn ei wella.